# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanilar

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol sy'n cyfrannu at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, gan ddarparu cymorth ac adborth defnyddiol iddynt. Maent yn galluogi disgyblion i ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu o oedran ifanc sy'n cynnwys dewis dulliau buddiol o gyflwyno'u gwaith, dewis lefel her gweithgareddau a chodi ymwybyddiaeth o'r agweddau y mae angen iddynt eu datblygu yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn gadarn mewn gweithgareddau ymarferol ar draws y meysydd dysgu sy'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o'r themâu yn dda. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes pobl ddu ac Asiaidd ac amrywiaeth mewn cymdeithas yn ystod gweithgareddau dysgu.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar waith yr ysgol yn gryfder, sy'n cynnwys cynnig syniadau a gweithgareddau o fewn y themâu, ac effeithiolrwydd grwpiau 'Lleisiau Ilar'. Mae effaith eu gwaith yn cynnwys dylanwadu ar welliannau yn y gymuned leol a darparu cyfleoedd i ddylanwadu ar les disgyblion mewn gweithgareddau hwyliog.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a dulliau cyfathrebu effeithiol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cefnogi'r disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach â'u dysgu yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a staff yn manteisio ar arbenigedd a chefnogaeth aelodau'r corff llywodraethwyr cydwybodol sy'n adnabod cryfderau ac agweddau i'r ysgol eu datblygu yn drylwyr.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes pobl ddu ac Asiaidd ac amrywiaeth mewn cymdeithas yn ystod gweithgareddau dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025